

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

30 Hydref 2018

10.00am – 12.00pm

Ystafell Bwyllgor 1, Canolfan Ddinesig, Abertawe



**Caring Together
Western Bay**
Health and Social Care Programme
**Gofalu Gyda'n Gilydd
Bae'r Gorllewin**
Rhaglen Gofal Iechyd a Chymdeithasol

Cofnodion

Yn bresennol

Enw	Sefydliad	Blaenlythrennau
Y Cynghorydd Rob Jones (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot	RJ
Yr Athro Andrew Davies (Is-gadeirydd)	BI PABM	AD
Caritas Adere	Cyngor Abertawe (ymgyngorydd cyfreithiol)	CA
Maggi Berry	BI PABM	MB
Y Cynghorydd Mark Child	Cyngor Abertawe	MC
Susan Cooper	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	SC
Kelly Gillings	Bae'r Gorllewin	KG
Dave Howes	Cyngor Abertawe	DH
Linda Jagers	Cynrychiolydd Gofalwyr	LJ
Andrew Jarrett	CBS Castell-nedd Port Talbot	AJ
Kelvin Jones	Defnyddiwr Gwasanaeth/Cynrychiolydd Dinasyddion	KJ
Y Cynghorydd Clive Lloyd	Cyngor Abertawe	CL
Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru	MM
Anne Newman	Cynrychiolydd Gofalwyr (Bob yn Ail)	AN
Steven Phillips	CBS Castell-nedd Port Talbot	SP
Gaynor Richards	CGG CNPT	GR
Y Cynghorydd Peter Richards	CBS Castell-nedd Port Talbot	PR
Phil Roberts	Cyngor Abertawe	PR
Carwyn Tywyn	Mencap Cymru	CT

Yn bresennol

Joanne Abbott-Davies	BI PABM	JAD
Hilary Dover	BI PABM	HD _o
Liz Griffiths-Hughes	Bavo	LGH
Sara Harvey	CLILC	SH
Lucy Jones	Bae'r Gorllewin (yn cymryd nodiadau)	LJo
Anne Beegan	Swyddfa Archwilio Cymru	AB
Julie Thomas	Cyngor Abertawe	JT
Nicola Trotman	Bae'r Gorllewin	NT
Catherine Vaughan	Bae'r Gorllewin	CV

Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd Huw David	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	HD
Steve Davies	Bae'r Gorllewin	SD
Louise Fraser-Cole	Bae'r Gorllewin	LFC
Siân Harrop-Griffiths	BI PABM	SHG
John Hughes	Unsain	JH
Fflur Jones	SAC	F.J
Y Cynghorydd Alan Lockyer	CBS Castell-nedd Port Talbot	AL

Darren Mepham	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DM
Adele Rose-Morgan	Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth/Dinasyddion	ARM
Tracey Myhill	BI PABM	AH
Rhonwen Parry	BI PABM	RP
Y Cynghorydd Dhanisha Patel	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DP
Debbie Smith	Cyngor Abertawe	DS
Y Cynghorydd Rob Stewart	Cyngor Abertawe	RS
Elaine Tanner	Bae'r Gorllewin	ETa
Emma Tweed	Gofal a Thrwsio	ET
Y Cynghorydd Phil White	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	PW

AGREED

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
1	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
1.1	Croesawodd RJ bawb i'r cyfarfod a gwnaed cyflwyniadau.	
2	Datganiadau o Gysylltiadau	
2.1	Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.	
3	Cofnodion Drafft y Cyfarfod Blaenorol - 19 Gorffennaf 2018	
3.1	Nododd KJ fod sylw gan AD ynghylch egwyddorion cydgynhyrchu na gofnodwyd yn y cofnodion.	
3.2	Tynnodd MC sylw at Symposiwm Iechyd a Thai Bae'r Gorllewin, a drafodwyd dan UFA yn y cyfarfod arall. Llongyfarchodd yr holl rai a fu'n rhan o hynny, ac yn enwedig MB, am sicrhau bod y digwyddiad wedi dwyn ffrwyth ac mae'n gobeithio gweld diweddariad ar ganlyniad y digwyddiad ar gam diweddarach. Eiliwyd hyn gan eraill, a gwnaed sylwadau ar y presenoldeb da a'r momentwm a brofwyd.	
4	Adroddiad Cynnydd y Cynllun Gweithredu	
4.1	Esboniodd KG fod y cynllun gweithredu'n amlygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Ardal Bae'r Gorllewin ers mis Ebrill 2018. Mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu naill ai'n wyrdd, sy'n dangos eu bod yn datblygu'n dda, neu'n ambr, sy'n dangos bod gwaith yn cael ei wneud ar fân broblemau.	
4.2	Dywedodd RJ y byddai'n hoffi moderneiddio'r agenda a chyflwyno eitemau mewn trefn fwy cydlynol, a'i fod felly wedi symud yr eitem hon i fyny gan ei fod yn cyd-fynd yn well ag eitemau eraill yn Rhan 1 fel diweddariad busnes.	KG i sicrhau bod y Cynllun Gweithredu'n cael lle mwy amlwg ar agendâu'r dyfodol.
5	Materion yn codi a chofnod gweithredu	
5.1	Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnod gweithredu diwethaf.	
6	Diweddariad am ASA a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig	
6.1	Rhodddwyd cyflwyniad gan SH, Arweinydd Strategol Cenedlaethol ar gyfer Awtistiaeth, ochr yn ochr â JT (Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Cyngor Abertawe) a CV (Rheolwr Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Bae'r Gorllewin). Roedd y cyflwyniad yn manylu ar adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r BPRh am waith y Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol.	
6.1.2	Esboniodd SH ei bod yn arwain grŵp bach i gynyddu ymwybyddiaeth a chreu adnoddau i'w rhannu ledled Cymru.	
6.1.3	Mae dulliau cyfathrebu'n cael eu datblygu, ac yn cysylltu ag offer cyfathrebu presennol Bae'r Gorllewin (gwefan, cylchlythyr chwarterol). Nodwyd bod cydgynhyrchu'n allweddol yn hyn o beth ond mae'n anodd ei reoli oherwydd y gofynion rhagnodol sy'n atodedig.	
6.1.4	Gofynnwyd i'r bwrdd nodi cynhadledd sy'n cael ei chynnal yn Stadiwm Liberty sef 'Byw'n Dda gydag Awtistiaeth'.	Aelodau'r BPRh i ystyried mynd i'r gynhadledd ar 02.04.19

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
6.2	Mae wedi bod yn anodd recriwtio a chadw mewn rhanbarthau eraill, a Bae'r Gorllewin yw'r un olaf i fynd yn fyw, felly rhaid cofnodi bod hyn yn risg.	
6.3	Roedd yr ymrwymiad cyllido (hyd at 1 Mawrth 2021) yn achos pryder i'r grŵp. Dylai'r gwerthusiad o'r cynllun peilot gyfeirio cyllid yn y dyfodol. Cymhlethir hyn ymhellach, fodd bynnag, gan fod Pen-y-bont ar Ogwr bellach ar wahân; bydd angen Cytundeb Lefel Gwasanaeth i sicrhau y parheir i ddarparu gwasanaeth teg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.	
6.4	Argymhelliad cyntaf oedd diweddarau'r BPRh ar waith y Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol a'r cynnydd o ran rhoi Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Bae'r Gorllewin ar waith.	
6.5	Yr ail argymhelliad yw i'r BPRh ystyried enwebu a chytuno ar "hyrwyddwr" ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig i weithredu fel eiriolwr ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig er mwyn cefnogi cynyddu ymwybyddiaeth yn y rhanbarth.	
6.5.1	Holodd AD a ddylid ystyried rôl yr hyrwyddwr fel rhan o'r adolygiad ehangach sy'n cael ei gynnal, a'i gynnwys yn yr hyn yr adroddir amdano yn y dyfodol.	
6.6	Nododd KJ heriau cydgynhyrchu a gofynnodd ynghylch y diffyg tystiolaeth o gynnwys dinasyddion a chwmnïau â budd yn y gymuned.	
6.6.1	Dywedodd SH fod gan yr arweinydd proffesiynol ar gyfer y gwasanaeth gefndir mewn cydgynhyrchu. Cafwyd mewnbwn gan unigolion awtistig a gofalwyr sy'n rhieni, ond, mae'n rhaid cyfaddef, dim digon.	
6.6.2	Nid yw'r gynhadledd "Byw'n Dda gydag Awtistiaeth" ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn unig, a dylid annog cynrychiolwyr, a dylid annog cynrychiolwyr sy'n ddinasyddion i fynd iddo.	
6.6.3	Mae arweiniad yn cael ei lunio sy'n cynnwys llais go iawn gofalwyr sy'n rhieni, a ddylai ddarparu neges glir, a bydd grwpiau llywio lleol yn cysylltu â chymunedau.	
6.7	Nodwyd bod y ffigur 1% yn gyfwerth â 5,000 o unigolion posib yn ardal Bae'r Gorllewin sydd ar y sbectrwm awtistig.	
6.7.1	Holodd SP ynghylch sut byddai mesurau'n cael eu mesur. O ran amserau aros ar gyfer asesiadau, lle'r ydym ni ar hyn o bryd. Mae angen i ni fod yn glir ynghylch meincodi a gwerthuso.	
6.7.2	Eglurodd CV fod angen mwy o waith i ddeall y ffigurau'n lleol, a chadarnhaodd JT fod ffyrddiau gwaith yn cael eu datblygu, yr eir i'r afael â thargedau ac adrodd yn unol â hwy.	
6.7.3	Esboniodd JT fod y ffocws diweddar wedi bod ar ddatblygu strategaeth, ond byddai mwy o fanylion yn cael eu cyflwyno yn y flwyddyn newydd.	
6.7.4	Pwysleisiodd MC yr angen i fynd i'r afael â sut byddai'n ymdrin â'r rhestr aros bosib o 5,000, os yw'r ffigur hwn yn gywir, ac unrhyw fylchau presennol yn y system.	
6.7.5	Esboniodd SH fod y broses yn rhagnodol am reswm, ac mai un elfen yn unig o hyn yw diagnosis. Mae angen cydbwysu	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
	anghenion y rhestr aros â chefnogaeth ar gyfer y rhai ar y rhestr aros.	
6.7.6	Anogwyd Bae'r Gorllewin gan SH i gymryd rhan yn y gwerthusiad.	
6.7.7	Esboniodd JAD fod rhestrau aros hir wedi'u hetifeddu o Gwm Taf. Cafwyd buddsoddiad o'r CGI a PABM. Mae targedau gan Lywodraeth Cymru'n nodi na ddylai rhestrau aros fod yn fwy na 26 wythnos, ac mae hyn yn cael ei gyflawni, ac mewn llawer o achosion, yn llawer cyflymach na hyn. Disgwylir felly y dylem gyflwyno safbwynt cryf fel gwaelodlin.	
6.8	Pwysleisiodd JT bwysigrwydd mwyafu'r cysylltiadau ag addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i ddeall yr effaith ar lwybrau cefnogaeth.	
6.9	Dywedodd GR fod angen i ni fod yn ofalus nad ydym yn colli ffocws ar strwythurau cynllunio lleol. Dywedodd JT fod cynrychiolydd o CNPT yn aelod o'r grŵp strategol. Bydd GR yn gwahodd CV i'r grŵp anabledd.	GR i wahodd CV i'r grŵp anabledd
6.10	Disgrifiodd SH sut mae Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe'n cefnogi awtistiaeth. Maent yn noddî'r digwyddiad ym mis Ebrill 2019 ochr yn ochr â Phrifysgol Abertawe. Mae'r gynhadledd yn cael ei gydgyhyrchu, a bydd y digwyddiad yn cyd-fynd ag Wythnos Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth.	
6.11	Dywedodd SP y dylid bod yn ofalus i beidio â chael eu llethu gan y Bil ADY. Ni fyddai gan ysgolion y lle i ymdopi â galw cynyddol, a allai fod yn enfawr. Cytunodd JT fod rheoli disgwyliadau'n allweddol.	
6.12	Ailadroddodd RJ bwynt 4.10 yn yr adroddiad sy'n gwarantu cyllid tan 2021, a'r pryder y gallai'r llywodraeth dynnu cyllid yn ôl neu ei dorri. Os oes angen y gwasanaeth yn wirioneddol, dylid ei ariannu.	
6.13	O ran eitem 5.2 yr adroddiad, sef yr argymhelliad i'r BPRh enwebu hyrwyddwr, cytunodd y bwrdd â hyn mewn egwyddor.	
6.13.1	Dylid cyflwyno mynegiannau o ddiddordeb ar gyfer rôl yr hyrwyddwr drwy RJ neu KG.	Mynegiannau o dDiddordeb ar gyfer hyrwyddwr ADY i'w hanfon at RJ/KG
6.13.2	Os na nodir gwirfoddolwyr, bydd y bwrdd yn enwebu rhywun.	
7	Gwerthusiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r CGI	
7.1	Cyflwynodd AB adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Gronfa Gofal Integredig ar gyfer Rhanbarth Bae'r Gorllewin.	
7.1.1	Nid yw casgliadau Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn yr adroddiad am eu bod yn y broses o gael eu nodi. Disgwylir adroddiad cenedlaethol drafft tua diwedd y flwyddyn.	
7.1.2	Mae un o'r prif argymhellion yn yr adroddiad yn ymwneud ag aelodaeth tai ar y BPRh.	
7.1.3	Mae argymhellion yn cael eu gwneud ar hyn o bryd drwy lywodraethu cenedlaethol yn hytrach nag ar lefel y BPRh, er y	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
	gall hyn ddigwydd yn ddiweddarach. Mae meysydd i'w gwella'n cael eu rhannu â'r BPRh.	
7.2	Nododd MM, er bod ffocws mawr ar y trydydd sector, nid oes sôn am y sector preifat, sy'n golygu bod gwahaniaeth di-fudd rhwng gwerth cymdeithasol ac economaidd.	AB i roi adborth am y sylwadau gan MM
7.3	Gwnaeth AD sylw ynghylch bod lle i wella o ran llywodraethu'n arbennig a dywedodd fod hyn yn bwynt dysgu defnyddiol ar gyfer adolygiad Bae'r Gorllewin.	
7.4	Nododd AB fod yr adborth i Lywodraeth Cymru'n amserol oherwydd gellid cymhwyso'r argymhellion mewn modd tebyg i'r Gronfa Drawsnewid.	
7.5	Tynnodd JAD sylw at yr angen am gysondeb yn y broses cyflwyno ceisiadau (e.e. templed cyffredin). Cytunodd GR, gan ddweud bod cyfle ychwanegol i symleiddio.	
7.6	Argymhellodd RJ fod y BPRh yn rhoi sylw i gasgliadau'r adroddiad, a chytunodd pawb.	
8	Fframwaith Strategol Iechyd Meddwl	
8.1	Dywedodd RJ nad oedd argymhellion ar gyfer y bwrdd a bod y fframwaith wedi'i fabwysiadu a'i ddatblygu ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, a'i fod wedi bod trwy nifer o brosesau cymeradwyo drwy gydol mis Hydref.	
8.2	Croesawodd SP gynnwys y fframwaith ond holodd a oedd unrhyw amserlenni penodol o ran rhoi'r rhaglen ar waith, gan ei fod yn ymwybodol y byddai gan gynghorwyr ddiddordeb yn y lefel hon o fanylder. Dywedodd JAD fod problem o ran ariannu rheolwr prosiect i strwythuro'r cynllun gweithredu, ond cadarnhaodd y bydd y BPRh yn cael gwybod am y manylyn ychwanegol hwn yn y flwyddyn newydd.	Cyfarwyddwyr i gyflwyno'r adroddiad terfynol i'w Cabinetau Lleol
8.3	Cyfeiriodd KJ at yr arddulliau gwahanol o adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y BPRh. Mae manylion y cydgynhyrchu wedi'u gwreiddio'n dda yn yr adroddiad arbennig hwn, ond nid yw hyn yn ymagwedd gyson ar draws pob adroddiad. Cefnogwyd hyn gan AD, a bwysleisiodd y dylid gwreiddio egwyddorion cydgynhyrchu yn yr holl ddogfennau.	Y BPRh i ystyried templed ar gyfer adroddiadau sy'n cynnwys egwyddorion cydgynhyrchu
9	Adroddiad Lansio'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol	
9.1	Dywedodd GR mai fersiwn ddrafft o'r adroddiad yw hon y mae angen gwneud mwy o waith arni, ac efallai nad yw argymhellion yn glir ar y pwynt hwn. Mae angen mwy o drafodaeth am ddiogelu ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â Phen-y-bont ar Ogwr. Gwnaed awgrym y dylid trafod yr argymhellion yn y cyfarfod nesaf.	GR i ddod â diweddariad ac argymhellion i gyfarfod nesaf y BPRh.
10	Adroddiad Mapio'r Gwasanaethau Gofalwyr	
10.1	Cyflwynodd LGH Adroddiad Mapio'r Gwasanaethau Gofalwyr i'r bwrdd.	
10.1.1	Cododd AN 3 phwynt mewn perthynas â'r adroddiad: <ol style="list-style-type: none"> 1. Lefel cyfranogaeth gofalwyr 2. Nid yw'n glir sut mae'r argymhellion yn cyd-fynd â'r 3 blaenoriaeth genedlaethol 	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
	3. Ymddengys fod cyfran y gofalwyr sy'n cael eu hasesu sy'n arwain at gynllun gofal a chefnogaeth/gefnogaeth statudol yn isel - a oes gwendid yn y broses?	
10.1.2	Mewn ymateb i bwynt 1, dywedodd LGH yr ymgysylltwyd â gofalwyr, ond bod y broses wedi'i chyfyngu gan amser, ac felly roedd yr ymgynghoriad wedi defnyddio barn a gasglwyd yn ddiweddar. Petai mwy o amser wedi bod ar gael, byddai ymgynghoriad ehangach wedi'i gynnal. Tynnodd AN sylw at y ffaith nad yw llawer o wasanaethau'n amlwg. Nododd SC y trafodwyd yr angen am gynrychiolaeth gofalwyr a'u cynnwys yn fwy yng nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr a derbyniodd y pwynt a wnaed.	
10.1.3	Mewn ymateb i bwynt 2, nododd LGH na chrybwyllwyd hyn yn gryf nac yn benodol, a byddai'n rhoi adborth am hyn i'r Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr. Awgrymodd RJ y dylai AN e-bostio hyn draw fel argymhelliaid. Ailadroddodd SC y byddai hyn yn cael sylw gan Fwrdd y Bartneriaeth.	AN i anfon argymhellion mewn perthynas â blaenoriaethau cenedlaethol ymlaen i'r Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr
10.1.4	Mewn ymateb i bwynt 3, esboniodd LGH y gellid ystyried hyn yn rhywbeth cadarnhaol gan ei fod yn bosib bod gwell prosesau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) a chysylltiadau â'r 3 ^{yd} sector yn darparu cefnogaeth ac yn osgoi'r angen am ymyriad statudol. Mae angen cynllun gofal a chefnogaeth dim ond lle nad oes modd diwallu anghenion mewn man arall. Fodd bynnag, gellir ceisio eglurhad ynghylch cyd-destun y ffigurau, ond nodwyd hefyd mai ciplun yn unig yw'r rhain. Ailadroddodd AN bryder y gallai hyn fod yn dystiolaeth o alw isel. Dywedodd PR fod yr ymholiad hwn wedi'i grybwyll yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ac yn ôl yr adborth, roedd gwasanaethau'n diwallu'r angen.	
10.1.5	Nododd LGH fod mentrau a ariennir gan y loteri, er enghraifft, hefyd yn cynnig gwasanaethau lefel isel, megis gwasanaeth eistedd sy'n lleihau'r galw am wasanaethau statudol. Mynegodd GR bryder ynghylch dibynnu ar gyllid y prosiect, a phwysleisiodd bwysigrwydd cynllunio y tu hwnt i hyn a chael cynlluniau wrth gefn ar waith i sicrhau cynaladwyedd. Mae hyn wedi'i nodi, a dywedwyd bod cylchoedd cyllido'n broblem ar gyfer y mathau hyn o wasanaethau.	
10.1.6	Tynnodd LJ sylw at y ffaith bod newidiadau diweddar i wasanaethau statudol (e.e. darpariaeth seibiant) wedi peri problemau ac effaith ar hyblygrwydd gofalwyr, ac nid yw'r anghenion a aseswyd a'r ddarpariaeth yn cyfateb.	
10.1.7	Nododd JAD a KG nad yw canllawiau'r CGI wedi bod yn gyson yn sefydliadau'r sector gwirfoddol.	
10.2	Awgrymodd RJ y dylai'r BPRh dderbyn argymhellion 1 i 13 yn eu cyfanrwydd.	
10.3	Nodwyd bod y galwadau ar wasanaethau'n uchel, a'u bod i gyd yn y pair, ond canmolodd y ffaith bod yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cydnabod hyn.	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
10.4	Awgrymodd JAD y byddai cynllun gweithredu'n ddefnyddiol i ddangos opsiynau cyflwyno, ac i droi egwyddorion yn weithredoedd, y nododd KG y byddai angen iddynt gysylltu â'r Cynllun Ardal.	
10.4.1	Dywedodd RJ y dylid diweddarau'r adroddiad i adlewyrchu camau gweithredu.	
10.4.2	Dywedodd LGH fod camau gweithredu wedi'u cynnwys fel rhan o'r cynllun gweithredu blynyddol, y dywedodd KG y gellir ei rannu â'r BPRh.	KG i sicrhau y rhennir y cynllun gweithredu â'r BPRh
11	Y Gronfa Drawsnewid	
11.1	Esboniodd JAD fod cais Bae'r Gorllewin wedi'i gyflwyno'n ffurfiol ac roeddent yn aros am adborth ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r ymateb anffurfiol yn gadarnhaol. Mae angen mwy o fanylion, yn enwedig o ran sut mae'r cais yn ategu cais y clwstwr meddygon teulu. Mae angen i'r ddwy elfen fod ar waith er mwyn i'r system weithio'n effeithiol. Ymhelaethodd AJ ar yr angen i ddarparu manylion, y bydd Llywodraeth Cymru'n eu hailystyried yng nghanol mis Tachwedd.	
11.2	Mynegodd MC fod y cais llwyddiannus ar gyfer Cwm Tawe'n gadarnhaol, ond mae angen ei blethu â'r cais ehangach. Rhaid bod yn ofalus fel nad yw Llywodraeth Cymru'n ystyried y ceisiadau fel rhai sy'n tynnu'n groes i'w gilydd, yn hytrach na'n ategu ei gilydd.	
11.3	Esboniodd HD fod swm o £1.7m wedi'i gadarnhau ar gyfer clwstwr Cwm Tawe. Mae cynnig eilaidd i bob clwstwr wneud yr un peth. Yr argymhelliad yw cadw'r ceisiadau ar wahân, ond dylid sicrhau eu bod yn plethu â'i gilydd. Gofynnir i'r BPRh gymeradwyo clwstwr Castell-nedd wrth symud ymlaen ar yr un pryd, ond mae gofyniad i symud 4 clwstwr arall yn eu blaenau ar ôl 6 mis, a'r gweddill ar ôl 12 mis.	
11.3.1	Pwysleisiodd HD yr angen am ddatblygu gofal sylfaenol ochr yn ochr â gofal cymdeithasol. Os yw'r BPRh yn gallu cefnogi'r argymhelliad mewn egwyddor, dychwelir cynnig wedi'i ddiweddarau, sy'n adeiladu ar adborth.	
11.4	Dywedodd MC nad oedd yn sicr beth fyddai cyfanswm y cais am gyllid, ac mae angen mwy o ddealltwriaeth a hyder i gadarnhau yr eir i'r afael â'r elfennau cymunedol pwysicaf.	
11.5	Esboniodd HD fod clystyrau gwahanol ar wahanol lefelau aeddfedrwydd, sydd wedi'i ystyried yn y ceisiadau hyn, gan arwain at Gwm Tawe a Chastell-nedd yn dod i'r amlwg fel y safleoedd prawf.	
11.6	Llongyfarchwyd pawb a oedd yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r ceisiadau a phwysleisiodd y pwysigrwydd y mae perthnasoedd cryf ym Mae'r Gorllewin wedi'u chwarae wrth gefnogi'r broses.	
11.7	Soniodd AJ am rai pryderon mewn perthynas â drysu'r 2 gais, ond mae'n hapus i ddarparu cais am ofal sylfaenol ar gyfer clwstwr Castell-nedd, gyda'r cais cymunedol i ddilyn.	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
11.8	Pwysleisiodd KJ fod angen rhywfaint o eglurder ynghylch yr arweiniad clinigol ar gyfer cais Cwm Tawe, gan ei bod hi'n ymddangos bod gwahanu cynigion yn gam yn ôl.	
11.8.1	Esboniodd HD y cafwyd ceisiadau am y cynigion drwy lwybrau gwahanol. Er bod un cais wedi'i arwain yn glinigol, gallwn ddarparu tystiolaeth i ddangos sut bydd y ddau gais yn cysylltu â'i gilydd ac yn darparu ymagwedd system gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio ei bod am weld yr ymagwedd gyfan hon yn hytrach na chlystyrau unigol, a dyna pam ychwanegwyd yr ymagwedd fesul cam.	
11.9	Gofynnodd RJ i'r bwrdd gytuno mewn egwyddor, ond gyda chafeatau sylfaenol ar waith, yn amodol ar y manylder ychwanegol y mae ei angen.	Cymeradwyodd y BPRh gyflwyno'r cais ar gyfer clwstwr Castell-nedd
11.9.1	Dywedodd DH fod angen ymagwedd dactegol, a bod angen amseru'r hyn rydyn yn ei gyflwyno'n ofalus. Mae angen cymeradwyo'r cais cynhwysol i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n darparu'r cyllid y mae ei angen i gyflwyno. Byddai felly'n annoeth cyflwyno cais PABM heb gymeradwy'r cais cymunedol ehangach.	
11.9.2	Dywedodd AJ y dylai'r bwrdd gefnogi'r dacteg, gyda sicrhad ar waith.	
11.9.3	Cadarnhaodd RJ y byddai'r BPRh yn mabwysiadu'r argymhellion a wnaed, a chytuno mewn egwyddor â'r cynigion a nodwyd.	
12	Newid i Ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr	
12.1	Dywedodd SC y byddai adroddiad llawnach ar gael erbyn cyfarfod nesaf y BPRh. Ceir ffrydiau gwaith partneriaeth a thrawsnewid, sy'n cysylltu.	
12.1.1	Cytunwyd ar egwyddorion a chynlluniau gwaith, yn ogystal â chynnig a chynlluniau ar gyfer gwahanu, y bydd rhai ohonynt ar waith erbyn 1 Ebrill 2019. Mae'r gwaith i gyd yn mynd rhagddo, a bydd mwy o fanylion yn dilyn.	
12.1.2	Mae Tîm y Rhaglen yn gallu gweld y cynnydd yn llawn.	
12.2	Dywedodd SC fod pryderon parhad o ran y 3 ^{ydd} sector. Bydd hyn yn cael effaith ar draws yr holl awdurdodau lleol sy'n rhan o hyn. Mae'r Bwrdd Arweinyddiaeth wedi ysgrifennu llythyr o sicrwydd mewn perthynas â hyn.	
12.2.1	Y broblem yw bod y 3 ^{ydd} sector wedi'i gynnwys yn nyraniad y CGI, felly cynigir tynnu'r CGI o'r broses, a dylai'r fformiwla sy'n cael ei awgrymu fod yn wahanol i'r un a ddefnyddiwyd yn flaenorol ledled Cymru.	
12.2.2	Dywedodd JAD fod pryderon ynghylch y CGI yn cael ei gynnwys yn nyraniad y Bwrdd Iechyd wedi'u nodi'n ysgrifenedig. Mae'r llythyr sydd wedi'i ysgrifennu'n awgrymu y dylid cadw'r CGI (a rhai ffrydiau cyllido eraill) ar wahân i'r dyraniad llawn.	
12.2.3	Dywedodd SC y byddai Llywodraeth Cymru wedi'i gwahodd i gyfarfod ffrydiau gwaith nesaf y bartneriaeth ar 4 Rhagfyr i drin	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
	a thrafod y pryderon. Mae cysylltiadau gwahanol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Byrddau Iechyd yn Llywodraeth Cymru.	
12.2.4	Mae AJ yn credu bod y ffaith nad ystyriwyd y CGI yn ddigon difrifol yn wall trwy esgeulustod. Mae Andrew Goodall yn cael ei wahodd hefyd i'r cyfarfod ar 4 Rhagfyr.	
12.3	Pwysleisiodd SP nad yw'n gyfforddus â chyfnod trawsnewid pen-ogored. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy penodol ynghylch y goblygiadau ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.	
12.3.1	Dywedodd SC fod cyfarfod wedi'i drefnu gyda Llywodraeth Cymru a 3 chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i geisio eglurder.	
12.3.2	Mynegodd AJ ei ddiolchgarwch i'r Byrddau Iechyd am weithredu mor gyflym i ddarparu sicrwydd a phwysleisiodd y dywedwyd wrth Lywodraeth Cymru y byddai angen iddynt chwarae rôl arweiniol yn hyn.	
12.4	Nodwyd y dylai'r llythyr a anfonwyd i'r Bwrdd Iechyd gael ei gefnogi gan lythyr cefnogi oddi wrth y BPRh; hHolodd RJ ynghylch yr hyn y dylai'r llythyr ei gynnwys.	JAD a KG i ddatblygu ymateb gan y BPRh
12.5	Dywedodd AJ wrth y bwrdd fod RS wedi gofyn iddo gymryd drosodd fel cadeirydd y BPRh. Bydd yn ystyried cydlynu â BPRh eraill.	
13	Trafodaeth Panel Rhanbarthol y Dinasyddion	
13.1	Rhoddodd KG ddiweddariad sef bod 3 phwynt allweddol i'w nodi:	
13.1.1.	1. Croesawyd y ffaith na fyddai newid Partneriaeth Bae'r Gorllewin yn arwain at newid i gyflwyno gwasanaethau.	
13.1.2	2. Mae cynrychiolwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn awyddus i gynnal gweithio mewn partneriaeth wrth symud ymlaen.	
13.1.2	3. Cyd-ddatblygwyd Strategaeth Gyfathrebu er mwyn rhoi adborth ar yr Adolygiad Strategol.	
13.2	Dywedodd RJ y byddai'n mynd i gyfarfod Panel Rhanbarthol y Dinasyddion eto ar ddiwedd mis Ionawr 2019.	
14	Y Diweddraf am Gyllid y CGI	
14.1	Darparwyd yr eitem er gwybodaeth.	
15	Comisiynu Strategol Cymru Gyfan ar draws y meysydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol	
	Darparwyd yr eitem er gwybodaeth.	
16	Ymgynghoriad ar Ran 9 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant	
	Darparwyd yr eitem er gwybodaeth.	
17	Rhagnodi Cymdeithasol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol	
	Darparwyd yr eitem er gwybodaeth.	
18	UFA	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
-----	------	----------------

18.1	Dymunodd RJ Nadolig Llawen i'r BPRh a chaeodd y cyfarfod.	
------	-----------------------------------------------------------	--

Dyddiad y cyfarfod nesaf

17 Ionawr 2019

15:00 – 17:00

Ystafelloedd A a B, Canolfan Ddinesig, Castell-nedd

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm

AGREED